
| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN ANFFURFIOL** |
| DYDDIAD: | **20 GORFFENNAF 2020** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 gyda swyddogion yn cwrdd yn aml. Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn safonol iawn ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly, mae'r papur yma'n diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa.

## 2. Perfformiad


### Cronfa Global Growth




| | 3 Mis | 1 Blwyddyn | Ers Sefydlu |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | -17.27% | -6.92% | -4.58% |
| Meincnod | -15.99% | -6.74% | -3.76% |

Cyn y pandemig, mae perfformiad y gronfa hon wedi bod yn uwch na'r meincnod gyda pherfformiad cryf gan Baillie Gifford a Veritas. Mae gan y portfolio fuddsoddiadau 'gwerth dwfn', ac oherwydd effaith y pandemig, mae'r perfformiad cyffredinol bellach wedi disgyn y tu ôl i'r meincnod. Mae'r sectorau traddodiadol megis olew ac arian wedi perfformio'n wael ac mae sectorau megis technoleg wedi perfformio'n gymharol dda.

**Cronfa Global Opportunities**




Mae perfformiad 1.39% yn uwch na'r meincnod ers ei sefydlu gyda pherfformiad cryf gan Morgan Stanley, Jacobs Levy a SW Mitchel yn benodol.

## 3. Trosglwyddiad Incwm Sefydlog

Yn y Pwyllgor ym mis Mawrth adroddwyd bod y trosglwyddiad incwm sefydlog yn digwydd ym mis Ebrill 2020. Yn anffodus, oherwydd y pandemic, ni ddigwyddodd hyn a bydd y trosglwyddiad rwan yn digwydd 27ain Gorffennaf 2020.

Bydd ein buddsoddiad presennol gyda Fidelity (Ecwiti byd eang) a Insight (Bondiau) yn cael ei drosglwyddo i'r ddau gronfa Incwm Sefydlog canlynol:

- **Multi Asset Credit Fund**

  Bydd £137.1M (gwerth ar 31/03/20) o Fidelity yn trosglwyddo i'r gronfa yma

- **Absolute Return Fund**

  Bydd £281.6M (gwerth ar 31/03/20) o Insight yn trosglwyddo i'r gronfa yma

## 4. Datblygiadau

4.1 Marchnadoedd Datblygol

Yn dilyn y trosglwyddiad Incwm Sefydlog ym mis Gorffennaf, y trosglwyddiad nesaf a fydd yn digwydd yw Marchnadoedd Datblygol- mae gwaith ar y gweill ar y funud i benderfynu y strwythur rheolwyr buddsoddi delfrydol i'r cronfa newydd yma.

Bydd cronfa Gwynedd yn symud ein cyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa yma.

### 4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grwp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma. Nid yw'r grwp wedi cwrdd yn ystod y pandemig, ond ma Russell Investments wedi bod yn edrych yn weithredol ar yr opsiynau sydd ar gael gyda'r portffolio cyfredol, a datblygu a rheoli cronfeydd PPC yn y dyfodol.

### 4.3 Cyhoeddiadau

Mae gan PPC nifer o gyhoeddiadau sydd wedi cael ei datblygu yn y misoedd diweddar. Mae rhain yn cynnwys:

- Cynllun Hyfforddiant
- Matrics Llywodraethu
- Cofrestr Risg
- Diweddariad Blynyddol
- Cynllun Cyfathrebu
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan PPC: www.partneriaethpensiwncymru.org

### 4.4 Cyd-Bwyllgor Llywodraethu

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i'w gynnal yn rhithiol ar 17 Gorffennaf. Bydd y Pennaeth Cyllid yn rhoi diweddariad o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.